Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# CYNLLUN GRANTIAU BACH
# GWYLIAU A DIGWYDDIADAU BWYD A DIOD 2024

## Canllawiau Ymgeisio am Gyllid y Cynllun

Cyn llenwi'r cais am gyllid, darllenwch y canllawiau isod.

## 1. Amcanion y Cynllun

1.1 Y nod yw dod â meysydd amaethyddiaeth, prosesu bwyd, cyrchfannau twristiaeth, y sector gwasanaeth bwyd, gwyliau bwyd a manwerthu bwyd ynghyd i elwa ar y manteision economaidd a ddaw o roi profiad diwylliannol nodedig ac unigryw o ansawdd uchel i ymwelwyr. Nodau'r Cynllun Grantiau Bach – Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd a Diod yw:

- Gwella ymwybyddiaeth pobl Cymru ac ymwelwyr o Fwyd a Diod Cymru a'u cyfleoedd i'w profi;
- Annog busnesau lletygarwch yng Nghymru i ddefnyddio mwy o fwyd a diod lleol;
- Cynyddu presenoldeb Bwyd a Diod Cymru ar fwydlenni ac mewn mannau manwerthu.

1.2 Dim ond gweithgareddau fydd yn ychwanegu at werth diwydiant bwyd a diod Cymru fydd yn cael eu cynorthwyo.

## 2. Pwy sy'n cael gwneud cais

2.1 Mae'r cynllun ar agor i:

a) Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd hen a newydd;

b) Cyrff cynhyrchwyr a/neu gyrff twristiaeth sydd â busnesau Bwyd a/neu Ddiod yng Nghymru yn aelodau ohonynt;

c) Asiantaethau di-elw neu fudiadau gwirfoddol;

d) Ceisiadau unigol neu ar y cyd gan grwpiau neu asiantaethau busnes Bwyd/Twristiaeth;

e) Clystyrau Bwyd sydd am fynd i nifer gyfyngedig o ddigwyddiadau gyda'u haelodau

2.2 Dylai fod gan ymgeiswyr hanes a phrofiad o gynnal gwyliau/digwyddiadau o ansawdd uchel. Os mai hon yw menter gyntaf busnes newydd sydd heb brofiad o gynnal gwyliau/digwyddiadau, dylai fod gan y cyfarwyddwyr brofiad o gynnal prosiectau mewn maes tebyg.

2.3 Mae'r cynllun yn un dewisol, ac asesir pob cais yn ôl ei rinweddau ac ansawdd yr wybodaeth a ddarperir yn y Ffurflen Gais.

2.4 Ni ystyrir rhoi grantiau i ôl-geisiadau. Ôl-gais yw cais am gyllid ar gyfer digwyddiad sydd eisoes wedi'i gynnal. Ceidw Llywodraeth Cymru'r hawl i benderfynu a yw cais yn ôl-gais.

2.5 Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru neu allu dangos y bydd y cyllid a'r gweithgaredd a gynorthwyir yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru. Croesewir prosiectau sy'n bartneriaethau rhwng dau neu fwy o ddigwyddiadau neu gyrff. Trafodir a chytunir sut i drefnu'r cyllid ar gyfer digwyddiadau o'r fath cyn rhoi'r cyllid a byddai'n ddefnyddiol pe baech yn esbonio yn eich cais sut y byddwch am drefnu'r cyllid.

### 3. Y cyllid sydd ar gael

3.1 Caiff y cyllid ei ddyrannu a'i ryddhau i ymgeiswyr llwyddiannus pan geir tystiolaeth o wariant yn unol â'r meini prawf hawlio. Bydd swm y grant a gynigir yn seiliedig ar yr holl gostau cymwys a ysgwyddir hyd at drothwy uchaf y cynllun hwn. Er y byddwn yn cefnogi holl gostau'r prosiect, mae croeso arbennig i geisiadau all denu cyllid cyfatebol (gan gynnwys cymorth mewn nwyddau) gan y bydd hynny'n golygu y gall ein cyllid fynd ymhellach.

| | |
|---|---|
| Y grant lleiaf sydd ar gael | £2,500 |
| Y grant mwyaf sydd ar gael | £15,000 |

3.2 Byddwn ond yn darparu'r cyllid sydd ei angen i'r prosiect allu mynd yn ei flaen. Bydd gofyn i ymgeiswyr brofi na fyddent yn gallu cynnal y prosiect dan sylw heb gymorth Llywodraeth Cymru, neu y byddai'n rhaid ei gynnal ar raddfa lai, llai effeithiol.

3.3 Ni ddylech ragdybio yn eich cynllun ariannol y cewch eich cyllido nac awgrymu ei fod wedi'i gadarnhau nes bod pob elfen o'r broses ymgeisio ac asesu wedi'i chynnal, a'ch bod wedi llofnodi a derbyn llythyr Dyfarnu Cyllid.

3.4 Rhaid darparu cyfrifon cywir wedi'u harchwilio, sy'n dangos yr holl gostau a ysgwyddwyd, fel rhan o'r broses monitro ar ôl dyfarnu'r grant. Os gwelir unrhyw anghysondebau, gallem ofyn ichi dalu'r grant yn ôl i Lywodraeth Cymru.

## 4. Meini Prawf y Cynllun

4.1 Bydd gofyn i'r cais ddangos sut y bydd yr ŵyl/digwyddiad yn bodloni 10 cam allweddol y Weledigaeth: Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021 | LLYW.CYMRU.

- Disgrifio'r cydweithio rhwng Bwyd a Diod a'r sector lletygarwch/twristiaeth.
- Sut mae'r prosiect/digwyddiad yn cefnogi rhaglen/strategaeth ehangach yn yr ardal/rhanbarth.
- Adeiladu Rhwydweithiau – adeiladu brand 'Cymreig', cydnabod tarddiad daearyddol cynnyrch, hyrwyddo bwyta'n iach
- Addysgu busnesau – gwerth achrediad, gwerth bod yn rhan o Glwstwr Bwyd Llywodraeth Cymru, gwerth ceisio am wobr bwyd a diod sy'n addas i'r busnes

- Gwaith Teg – Cyflog Byw Cymreig – a yw'r busnesau rydych am eu cael yn eich gŵyl/digwyddiad yn talu Cyflog Byw Cymreig i'w staff? A oes gennych chi'ch hunan bolisi gwaith teg?

4.2 Rhaid dangos yn glir sut y bydd yr ŵyl/digwyddiad yn cynyddu cyfleoedd i gynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru a'r ymwybyddiaeth ohonynt. Bydd angen cyflwyno adroddiad gwerthuso i Lywodraeth Cymru ar ôl dyfarnu'r grant i ddangos effaith (ansoddol a/neu feintiol) y prosiect/digwyddiad ar ddiwydiant Bwyd a Diod Cymru, gweler adran 7 ac 8 am fanylion llawn.

4.3 **Nid** yw gwariant ar yr eitemau canlynol yn gymwys o dan y Cynllun hwn:

- Unrhyw gostau cyfalaf **(gweler adran 15 am rhagor o fanylion)**;
- Gwefannau;
- Hysbysebion;
- Erthyglau golygyddol;
- Cyfryngau cymdeithasol;
- Costau cyn gwneud cais neu gostau y gall ffynonellau eraill dalu amdanynt;
- TAW fydd yn cael ei had-dalu **(h.y. os ydych wedi cofrestru at ddibenion TAW, ni fyddwch yn gallu hawlio TAW ar unrhyw wariant)**;
- Costau diswyddo;
- Dyledion neu gostau gwasanaethu dyled;
- Difidendau;
- Llog;
- Unrhyw beth sy'n groes i ddeddfwriaeth neu gyngor Llywodraeth Cymru;
- Unrhyw weithgaredd a all yn ein barn ni ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru;
- Costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo achos neu gred mudiad ffydd neu wleidyddol;
- Prosiectau sy'n dibynnu ar lafur di-dâl neu sy'n ei annog;
- Costau nad ydynt yn benodol i'r gweithgaredd/prosiect y gwneir cais ar ei gyfer.

## 5. Y broses ymgeisio ac asesu

5.1 Bydd ein tîm yn gallu rhoi cyngor a yw'ch cais yn gymwys a'r broses ymgeisio ond nid yw trafod eich prosiect gydag aelod o'r tîm yn golygu y caiff ei gymeradwyo. Mae hon yn gronfa gystadleuol lle caiff pob prosiect ei asesu a'i sgorio yn ôl meini prawf safonol. I ofyn am ffurflen gais, neu am gyngor ar sut i wneud cais, cysylltwch â'r tîm drwy ebostio GwyliauBwyd@llyw.cymru / FoodFestivalsEvents@gov.wales.

5.2 Bydd rownd ymgeisio gyntaf y Gronfa yn agor am **12.00 (hanner dydd) 1 Mai 2024**. Dylid cyflwyno ceisiadau i GwyliauBwyd@llyw.cymru / FoodFestivalsEvents@gov.wales erbyn **12:00 (hanner dydd) 7 Mehefin 2024** fan hwyraf. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Cynhelir rowndiau pellach os bydd cyllid ar gael.

5.3 Bydd archwiliad diwydrwydd dyladwy ac ariannol yn cael ei wneud o bob cais a'r holl wybodaeth ategol. Bydd hyn yn cynnwys archwilio'ch rhagolygon ariannol, archwiliad atal twyll ac archwilio cyfarwyddwyr eich cwmni. Lle nad oes gwybodaeth ar gael (e.e. unig fasnachwyr nad ydynt wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau) gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth berthnasol ar wahân at y diben hwn. Os ydych yn gysylltiedig â busnes sydd

mewn dyled i Lywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y byddwch yn cael gwneud cais am ragor o gyllid a dylech drafod hyn gyda ni cyn gwneud cais.

5.4 Bydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r holl archwiliadau cymhwysedd (gan gynnwys diwydrwydd dyladwy) yn cael eu gwrthod a'u hysbysu yn y cam hwn.

5.5 Bydd ceisiadau sydd wedi bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd a bodloni'r archwiliadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu hasesu wedyn gan swyddogion yr Is-adran Fwyd a dilysir y sgoriau gan Banel Asesu. Bydd swyddog o adran berthnasol arall y tu allan i'r Is-adran Bwyd, yn rhan o'r broses asesu hon.

5.6 Bydd prosiectau sy'n cael o leiaf y sgôr isaf sydd ei angen i basio yn cael eu rhoi gerbron Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'w cymeradwyo. Os bydd gwerth ceisiadau cymwys yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael mewn unrhyw flwyddyn ariannol, rhoddir blaenoriaeth i'r ceisiadau sydd â'r sgôr uchaf.

5.7 Ar ôl i Weinidogion eu cymeradwyo, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod ac yn cael llythyr dyfarnu. Caiff pob grant a ddyfernir, gan gynnwys ei werth, ei gyhoeddi ar wefan Bwyd a Diod Cymru.

5.8 Cronfa ddewisol yw hon ac nid oes modd apelio. Caiff ymgeiswyr aflwyddiannus wybod trwy e-bost ar ôl y sifft Cam 1 cyntaf neu ar ôl yr asesiad gan y Panel Asesu (ddim hwyrach nag 1 mis ar ôl dyddiad cau'r cynllun).

5.9 Yn mai'r bwriad yw cynnal yr ŵyl/digwyddiad yn y cyfnod ymgeisio hwn (1 Mai 2024 – 7 Mehefin 2024), gwneir pob ymdrech i asesu'r cais a hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniad cyn gynted ag y medrir.

5.10 Bydd gofyn i ymgeiswyr anfon ceisiadau, cyfrifon, ffurflenni hawlio ac adroddiadau dros e-bost i'r cyfeiriad canlynol:

GwyliauBwyd@llyw.cymru / FoodFestivalsEvents@gov.wales

5.11 Dylai ffurflenni cais gynnwys llofnodion wedi'u sganio neu fel arall, rhaid i'r person a enwir ar y ffurflen anfon y ffurflen o'i gyfeiriad e-sbot.

5.12 Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ailymgeisio am gyllid o fewn cyfnod rhesymol. Dim ond **un** cais llwyddiannus ar gyfer pob gŵyl/contract/digwyddiad a dderbynnir mewn blwyddyn ariannol (tan 31 Mawrth 2025).

## 6. Amserlen

6.1 Amserlen

| | |
|---|---|
| **1 Mai 2023** | Cyfnod ymgeisio am y grant yn dechrau. |

| | |
|---|---|
| | |
| **7 Mehefin 2023** | Rhaid sgorio pob cais.<br><br>Os cynhelir gŵyl/digwyddiad o fewn y cyfnod ymgeisio, gwneir pob ymdrech i hysbysu'r ymgeisydd cyn gynted ag y medrir. |
| Rhoi gwybod bod grant wedi'i roi | Rhaid i'r ffurflen dderbyn ddod i'n llaw o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl i chi gael y llythyr cynnig. Rhaid darparu anfoneb hefyd o'r swm a gynigir. Telir y grant o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r anfoneb ein cyrraedd. |
| Hawlio ac Adrodd | Rhaid cyflwyno adroddiad, ffurflen hawlio a thystiolaeth o'r gwariant o fewn 30 diwrnod gwaith o gynnal yr ŵyl/digwyddiad. |

## 7. Meini Prawf Sgorio

7.1 Defnyddir y meini prawf canlynol wrth asesu POB cais:

- **Ffitio ag amcanion a nodau'r cynllun**

  Disgwylir i'r ymgeisydd ddangos bod y digwyddiad yn bodloni amcanion Meini Prawf y Cynllun fel y'u rhestrir yn adran 1, 2 a 4 uchod.

- **Gwerth am arian**

  Disgwylir i'r cais ddangos bod y cynnig yn rhoi gwerth da am yr arian. Gweler rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 7 isod.

  Bydd ffioedd mynediad i'r ŵyl/digwyddiad yn cael eu hystyried wrth wobrwyo cyllid.

- **Arloesi**

  Mae diwydiant sy'n economaidd fyrlymus ac sy'n edrych tua'r dyfodol yn gorfod bod yn arloesol i gipio marchnadoedd a symud yn ei flaen. Rhaid i'r cais ddangos tystiolaeth o'r gweithgareddau a'r profiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer y digwyddiad – a dylent gynnwys elfennau newydd ac arloesol i sicrhau bod y prosiect/digwyddiad yn cynnig profiad cyffrous i ymwelwyr, masnachwyr a'r gymuned leol.

- **Canlyniadau ac amcanion clir, wedi'u diffinio**

  Bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod y cyllid a geir yn dod â mantais, pa mor fach bynnag, i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae canlyniadau ac amcanion gŵyl/digwyddiad yn ffordd effeithiol o fesur llwyddiant

- **Capasiti a'r gallu i gyflawni**

  Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt y capasiti a'r gallu i gynnal y digwyddiad.

- **Cynaliadwyedd tymor hir**

  Rhaid i ymgeiswyr ddangos y bydd eu prosiect/digwyddiad yn gynaliadwy yn y dyfodol.

7.2 Gweler Atodiad 1 am fanylion llawn sut bydd y ceisiadau'n cael eu sgorio.

## 8. Cyllid a Monitro

8.1 Gwerth y grant mwyaf y gellir ei roi yw £15,000

8.2 I gael help o dan y rhaglen hon, rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a rhaid bod arian ar gael.

8.3 Caiff y cyllid ei roi ar ffurf grant, yn unol â'r amodau a ddisgrifir yn y llythyr cynnig.

- Caiff y cyllid ei dalu fel ôl-daliad (ar ôl y digwyddiad). O dan amgylchiadau eithriadol, gellid talu'r cyllid ymlaen llaw os gall yr ymgeisydd brofi achos busnes digon cryf.
- Nodir yn eich llythyr cynnig fanylion beth y bydd angen i chi ei ddarparu yn y cam hawlio.
- Ein nod yw prosesu'r taliad o fewn 30 niwrnod gwaith ar ôl i hawliad ddod i law gyda'r **holl** dystiolaeth ategol.
- Dylai ymgeiswyr ddeall y gallech orfod talu'r grant yn llawn neu'n rhannol yn ôl os na fyddwch wedi bodloni amodau a thelerau rhoi'r cyllid.

8.4 Rhaid rhoi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw newidiadau i'r ŵyl/digwyddiad unwaith y bydd y cyllid wedi'i roi.

8.5 Ceir sefyllfaoedd pan fydd angen talu'r cyllid, neu ran ohono, fydd wedi'i roi ymlaen llaw cyn cynnal yr ŵyl/digwyddiad yn ôl. Mae'r sefyllfaoedd hynny'n cynnwys:

- os na fydd yr ŵyl/digwyddiad yn mynd yn ei flaen fel y'i bwriadwyd oherwydd amgylchiadau a ragwelwyd neu na chawsant eu rhagweld
- os na fydd y digwyddiad yn bodloni meini prawf y cynllun (gweler adran 4);
- os nad yw'r trefnydd yn gallu dangos tystiolaeth o wariant y digwyddiad o fewn yr amserlen anodedig (gweler 8.10); a/neu
- os nad oes tystiolaeth bod y grant a roddwyd wedi'i wario ar ŵyl/digwyddiad 2024/25

8.6 Ni fydd taliadau arian parod yn wariant cymwys o fewn cronfa'r grant.

8.7 Yr unig wariant cymwys y gellir defnyddio'r grant ar ei gyfer yw costau refeniw a chostau anstatudol.

8.8 Caiff taliadau eu gwneud ar ôl i'r ceisiadau gael eu hystyried ac ar ôl rhoi'r llythyr cynnig. Bydd yn rhaid ichi lofnodi'r llythyr hwnnw a'i ddychwelyd fel arwydd eich bod yn derbyn y cyllid a'r amodau. Dylid darparu anfoneb ar gyfer swm y grant gyda'r ffurflen dderbyn.

8.9 Bydd angen llenwi ffurflen adrodd ar ôl cynnal y prosiect/digwyddiad a gyllidir – gan gynnwys gwybodaeth am y rhaglen weithgareddau a digwyddiadau, gwybodaeth am nifer y bobl a manylion llawn y rheini sydd wedi elwa ac sy'n bresennol, a lluniau o'r digwyddiad. Dylid cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru ddim hwyrach na 30 diwrnod ar ôl cynnal yr ŵyl/digwyddiad ac mae'n amod o'r cyllid.

8.10 Bydd angen darparu prawf o'r gwariant ar bob digwyddiad a gyllidir (h.y. anfonebau/derbynebau) – yn ogystal â phrawf eich bod wedi talu o'ch cyfrif gyfanswm y grant rydych wedi'i gael – fel rhan o'r adroddiad ar y digwyddiad. Bydd hyn yn dystiolaeth bod y grant llawn wedi'i wario ar gostau'r ŵyl/digwyddiad. O beidio â dangos y dystiolaeth hon o fewn 30 diwrnod gwaith o'r ŵyl/digwyddiad, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r cyllid.

8.11 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i asesu llwyddiant y grant. Trwy fonitro'r prosiect ar ôl ei gwblhau, byddwn yn asesu i ba raddau y gellir priodoli'r canlyniadau a'r allbynnau i weithgareddau'r cynllun ac yn edrych a fu effeithiau ehangach, boed wedi'u rhagweld a heb eu rhagweld.

8.12 Gall Llywodraeth Cymru neu drydydd parti sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru gysylltu â chi at ddiben ymchwilio a gwerthuso a/neu i roi adborth am eich profiad o'r cynllun. Caiff yr wybodaeth ei dadansoddi a'i chyflwyno'n ddi-enw yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd.

## 9. Rheoli cymorthdaliadau'r DU

9.1 Rhaid i chi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gydnaws â'r cytundebau cymwys sydd wedi'u cynnwys yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys Protocol Gogledd Iwerddon y DU ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol. Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi roi manylion unrhyw gyllid blaenorol y mae eich busnes wedi'i dderbyn.

9.2 Bydd eich cais, os bydd yn llwyddiannus, yn cyfrif fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn unol â Rhan 3 Pennod 2 o Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022 a elwid gynt yn (SAFA)* / cymorth de minimis, yn unol ag Erthygl 3.2 paragraff 4 Cytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE. Mae'r cymorth hwn yn cyfyngu ar faint o gymorth y gall busnes ei gael gan y wladwriaeth.

9.3 Os ydych wedi derbyn MFA, SAFA neu de minims yn y gorffennol, dylid bod wedi'ch hysbysu'n ysgrifenedig am hynny pan gawsoch y cymorth hwnnw. Bydd angen i chi ychwanegu'r grant hwn at gyfanswm eich MFA dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf gan ei

gadw o dan oddeutu £315,000 ac ar gyfer unrhyw ddatganiadau neu hawliadau MFA yn y dyfodol. Rhaid datgan y swm i ni yn ystod y cam ymgeisio.

9.4 Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Dibenion yn cael eu cyflawni yn unol â'r meini prawf Cymorth Gwladol y rhoddwyd y Cyllid hwn drwyddo.

9.5 Os ewch dros y terfyn, chi fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau a gymerir o ganlyniad, gan gynnwys ad-dalu'r cyllid rydych wedi'i gael.

9.6 Am ragor o wybodaeth, darllenwch Canllaw Statudol ar Drefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU

## 10. Y Gymraeg

10.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a thyfu'r Gymraeg. Mae gan y diwydiant digwyddiadau ran bwysig i'w chwarae trwy gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg a'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn unol â *Cymraeg 2050*.

10.2 Rhaid darparu deunydd ysgrifenedig (gan gynnwys arwyddion a gwybodaeth ar-lein) yn gyntaf yn y Gymraeg, ac yna'n Saesneg. Cewch wybodaeth ynghylch darparu gwasanaethau a deunydd ysgrifenedig yn y Gymraeg ar wefan Comisiynydd y Gymraeg:

10.3 www.comisiynyddygymraeg.org

## 11. Cyhoeddusrwydd

11.1 Disgwylir i bob cais llwyddiannus:

- Gytuno i gael ei gynnwys ar gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata y byddwn yn eu cynhyrchu am y Gronfa hon, am hyd at 3 blynedd ar ôl dyfarnu'r cyllid. Mewn perthynas â hyn. gallem ofyn am ddelweddau neu fideos a'r hawliau perthnasol i'w defnyddio yn y wasg ac mewn cyhoeddusrwydd.
- Cytuno i nodi ar ei ddeunydd hyrwyddo, gan gynnwys ar ei wefan, bod y prosiect wedi'i gyllido neu ei ran-gyllido gan Lywodraeth Cymru.
- Rhoddir gwybod i ymgeiswyr llwyddiannus cyn cyhoeddi deunydd hyrwyddo.

## 12. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

12.1 Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i wireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymru a ddisgrifir yn y nodau llesiant. Mae'r saith nod llesiant yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni'r holl nodau, nid dim ond un neu ddau ohonynt. Nod y strategaeth yw sicrhau ein bod yn ehangu'r cyfraniad y mae digwyddiadau eisoes yn ei wneud i'r saith nod hyn. Bydd cyfeirio at y nodau hyn ac egluro sut y bydd eich prosiect yn eu cyflawni yn ystyriaeth bwysig wrth asesu'ch cais.

## 13. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

13.1 Mae ein strategaeth yn rhoi ffocws bwriadol ar sicrhau bod digwyddiadau’n cwmpasu amrywiaeth eang o arddulliau i apelio at gynifer o bobl â phosibl. Bydd portffolio cytbwys yn ystyried oedran, rhanbarth, ethnigrwydd, crefydd, pris mynediad, ac yn y blaen i sicrhau bod y digwyddiadau yn eang, yn gynhwysol ac yn hygyrch.

13.2 Felly, mae croeso arbennig i brosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn y diwydiant.

## 14. Hysbysiadau preifatrwydd

14.1 Gofalwch eich bod wedi darllen, deall a derbyn y Canllawiau a’r Hysbysiad Preifatrwydd **cyn** dechrau llenwi’r ffurflen gais.

Hysbysiad preifatrwydd grantiau Llywodraeth Cymru

## 15. Costau Cyfalaf

15.1 Nid yw costau cyfalaf yn wariant cymwys.

Costau Cyfalaf yw unrhyw ‘eitem’ sydd yn cael ei gadw i’w ddefnyddio yn y dyfodol. Pwrpas y grant yw i gefnogi costau o redeg digwyddiad, dim i brynu eitemau sydd â gwerth ariannol yn y dyfodol (h.y. ased).

Nid yw eitemau sydd gan amlaf yn cael eu diddymu o fewn blwyddyn yn gymwys.

**Atodiad 1**

| Meini prawf asesu | Pwysoliad | Sgôr | |
|---|---|---|---|
| 1 | Ffit strategol<br><br>I ba raddau y mae'r prosiect yn gyson â/yn cyflawni:<br><br>• prif flaenoriaethau'r 'Weledigaeth'<br>• cydnabod tarddiad daearyddol (GI) cynnyrch, a hyrwyddo bwyta'n iach<br>• amcanion cyflogadwyedd *Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau* Llywodraeth Cymru a'r Gwarant i Bobl Ifanc<br>• blaenoriaeth Llywodraeth i gynyddu cynhwysiant ac amrywiaeth, a dathlu Cymru, ei diwylliant a'i hiaith | X6 | /5 |
| 2 | Cryfder ac Ansawdd y cynnig a thystiolaeth bod angen y gweithgaredd / Cynllun rheoli a'r gallu i gyflawni<br><br>• Ansawdd cyffredinol y cais a'r disgrifiad o'r cynnig<br>• A fydd y cynnig yn creu manteision mesuradwy i'r sector digwyddiadau a/neu busnesau bwyd yng Nghymru?<br>• A yw'r cynnig yn arloesol?<br>• A oes tystiolaeth bod y cynnig yn annog arloesedd ac arfer gorau o ran cynnal digwyddiadau cynaliadwy. | X6 | /5 |
| 4 | Canlyniadau/Allbynnau'r Prosiect<br><br>• Ansawdd targedau a chanlyniadau/allbynnau'r prosiect; yn realistig ac yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol?<br>• Sut byddwch chi'n eu mesur? | X4 | /5 |
| 5 | Costau'r prosiect a gwerth am arian<br><br>• A fydd y cynnig yn rhoi gwerth am arian?<br>• A yw costau'r gweithgareddau arfaethedig yn rhesymol?<br>• A yw'r manteision a ddisgwylir yn gymesur â'r costau?<br>• Ydych chi wedi cael arian cyfatebol (neu gymorth mewn nwyddau)? | X4 | /5 |

| Meini prawf asesu | Pwysoliad | Sgôr |
|---|---|---|
| | • A oes tystiolaeth bod gennych strategaeth ymadael ac o gynaliadwyedd tymor hir y prosiect (gan gynnwys ei ariannu yn y dyfodol os bydd swyddi wedi'u creu)<br>• A yw arian Llywodraeth Cymru yn angenrheidiol i'r prosiect allu mynd yn ei flaen/a wnaiff leihau neu gynyddu'r manteision posibl?<br>• A fydd ffi mynediad i'r digwyddiad? | |
| | Cyfanswm y sgôr* | /100 |

*Os bydd gwerth y ceisiadau cymwys yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael mewn blwyddyn ariannol, rhoddir blaenoriaeth i helpu'r ceisiadau sydd â'r sgoriau uchaf.